Papur Briffio 2

Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

"Rhaid inni gael teimlo ein bod wrth y llyw ac yn gallu ein gwella ein hunain. Rydyn ni i gyd am weld mwy o dystiolaeth o ofal a synnwyr cyffredin. Mae cymaint o ragdybiaethau a chymaint o stigma ynghylch salwch meddwl."

Person ifanc
Gwasanaeth Barnardo's Cymru yn Marlborough Road
Caerdydd

Save the Children
Achub y Plant

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

NCH CYMRU

NSPCC
Dim mwy o greulondeb i blant. DIM.
Cruelty to children must stop. FULL STOP.

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

Mae un plentyn ym mhob pump yng Nghymru'n profi problemau iechyd meddwl. Mae materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl ac anhwylderau meddwl ymysg pobl ifanc yn gallu dinistrio bywydau'r rhai y maent yn effeithio arnynt a difetha ansawdd bywyd y rhai o'u cwmpas. Mae Erthyglau 6 a 24 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig yn rhoi hawliau i blant i gael gofal iechyd da ac mae saith nod craidd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn tynnu sylw at yr angen iddynt "fwynhau'r iechyd corfforol a meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol gorau posibl".

Beth sydd wedi'i gyflawni ers 2003?

Cyhoeddwyd dogfen strategaeth allweddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, "Busnes Pawb" ym Medi 2001. Mae'r strategaeth ddeng mlynedd hon yn disgrifio dull cynhwysol o drefnu a darparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, gan roi pwys ar weithio aml-asiantaeth ac aml-ddisgyblaeth drwy strwythur pedair haen sy'n hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth â phobl ifanc a theuluoedd.

Ymddiriedwyd y gwaith o asesu lefel y buddsoddiad yr oedd ei hangen ar gyfer Strategaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, ac o weithredu'r Strategaeth, i Grŵp Gweithredu aml-asiantaeth, aml-ddisgyblaeth i Gymru gyfan. Ataliwyd gwaith y grŵp hwn yn 2002 pan ddechreuwyd gweithio ar y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FfGC) i Blant yng Nghymru ac nid yw wedi ailddechrau ar ôl cyflwyno'r FfGC i Blant yn 2005, er ein bod yn deall bod grŵp sy'n monitro gweithrediad y Fframwaith sy'n cynnwys Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn ei gylch gwaith.

Mae'r FfGC i Blant yn ceisio gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau o ran ansawdd a chydraddoldeb drwy bennu safonau cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Mae adran yn y Fframwaith ar blant a phobl ifanc sydd â phroblemau ac anhwylderau iechyd meddwl sy'n cynnwys dwy safon a chyfres o gamau gweithredu allweddol sy'n cyfateb iddynt. Hyd yma, dim ond swm bach o gyllid a ddarparwyd i hyrwyddo'r cynigion strategol a'r rhai ar gyfer darparu gwasanaethau sydd wedi'u nodi yn "Busnes Pawb" a'r FfGC i Blant. Mae gwasanaethau Iechyd Meddwl i blant a phobl ifanc wedi derbyn rhywfaint o "arian Wanless" yn ogystal â'r cyllid ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a gyhoeddwyd yn 2004. Y cyllid ychwanegol oedd: £1.2 miliwn (yn rheolaidd) ar gyfer gwelyau i gleifion mewnol yn eu glasoed, seiciatreg fforensig, gweithwyr iechyd meddwl mewn gwasanaethau sylfaenol a datblygu cwrs Diploma newydd; £1.4 miliwn o arian untro i ddelio ag amseroedd aros drwy gynyddu capasiti Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Mewn rhai ardaloedd, mae arian Cymorth wedi cyfrannu at sefydlu prosesau ymyriadau cynnar. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r cyllid hwn ond wedi diwallu cyfran fach iawn o'r angen (roedd y grŵp gweithredu ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn amcangyfrif bod angen £10 miliwn y flwyddyn dros y tair blynedd cyntaf!).

Mae gan Fyrddau Iechyd Lleol rai targedau'n awr ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed sy'n seiliedig ar safonau'r Fframwaith a bu'n ofynnol iddynt gyflwyno strategaethau lleol i Lywodraeth y Cynulliad. Er hynny, nid oes amserlenni ar gyfer nifer o'r camau gweithredu a nodwyd yn "Busnes Pawb" a'r Fframwaith o fewn cyfnod deng mlynedd y Fframwaith. Mae'r gwaith o gomisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn gymhleth, a'r cyfrifoldebau wedi'u rhannu rhwng gwahanol asiantaethau ar wahanol lefelau angen. Sefydlwyd tri rhwydwaith rhanbarthol i gomisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a fydd yn mapio ac yn datblygu gwasanaethau, gan gadw mewn cysylltiad agos â Gwasanaethau Cymdeithasol a gwasanaethau Addysg. Mae is-adran Iechyd Cyhoeddus y Cynulliad yn datblygu cynllun traws-sector i bob oed i hyrwyddo iechyd a lles meddyliol.

Beth yw ein pryderon presennol?

Er gwaethaf y bwriadau yn "Busnes Pawb" a'r FfGC i Blant, mae'r ddarpariaeth o wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed mewn argyfwng ledled Cymru. Ceir diffygion mawr o ran gweithredu'r ddwy strategaeth am fod y lefelau ariannu'n wael dros ben. Yn Lloegr, dyrannwyd £440 miliwn i wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ers 2000. Pe byddai Cymru'n gwario swm cyfatebol y pen, byddai'r cyfanswm yn £26.4 miliwn. Bu

Comisiynydd Plant Cymru'n feirniadol iawn o'r diffyg ymrwymiad gan Lywodraeth y Cynulliad i'w strategaeth ei hun.

Rhai o'r pryderon penodol ynghylch Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yng Nghymru yw:

- Mae cyfrifoldeb dros wasanaethau ar wahanol lefelau angen wedi'i rannu rhwng gwahanol Weinidogion a rhwng gwahanol asiantaethau lleol. Gall hynny adael bwlch o ran arweinyddiaeth a pheri ei bod yn anodd gweithredu prosesau comisiynu.
- Nid oes digon o welyau i gleifion mewnol yn eu glasoed yng Nghymru: ceir llai am bob pen o'r boblogaeth na gweddill y DU. Hefyd, mae cysylltiadau gwael rhwng gwasanaethau i gleifion mewnol a rhai i gleifion allanol.
- Nid oes darpariaeth arbenigol ar gyfer anhwylderau bwyta i gleifion mewnol yng Nghymru.
- Ceir prinder dybryd o wasanaethau i blant sydd ag anabledd dysgu, e.e. plant sydd ag awtistiaeth ac ymddygiad heriol.
- Mae'r gyfradd hunanladdiad ymysg plant yng Nghymru, sydd yn bum gwaith yn uwch na'r un yn Lloegr, yn peri pryder (ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol).
- Mae plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli'n amhriodol mewn wardiau i oedolion ac mae rhai'n cael eu lleoli'n eithaf pell o'u cartrefi.
- Ychydig o wasanaethau cynghori addas sydd ar gael i blant a phobl ifanc, mewn mannau lle y byddent yn debygol o'u defnyddio.
- Mae anawsterau o ran denu rhai i weithio mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ac mae seiciatryddion plant generig a gweithwyr iechyd meddwl mewn gwasanaethau sylfaenol yn brin.

Argymhellion

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

- Sicrhau bod adolygiad "pwynt canol" o'i Strategaeth 10 mlynedd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn ystyried barn a phrofiadau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd a staff rheng flaen.
- Sicrhau bod yr holl ddarpariaeth o wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed wedi'i chomisiynu a'i hariannu i blant a phobl ifanc hyd at eu 18 oed.
- Ystyried ar frys yr angen am adnoddau cynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed a'r FfGC i blant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru.
- Hyrwyddo a chefnogi mwy o wasanaethau i bobl ifanc sydd ag anableddau dysgu, y rhai sy'n eu niweidio eu hunain, y rhai sydd â phroblemau o ran camddefnyddio sylweddau, y rhai a gafodd ddiagnosis deuol a'r rhai sydd â phroblemau fforensig, a gwasanaethau iechyd meddwl i fabanod.
- Sicrhau bod nifer y gwelyau i gleifion mewnol sy'n ofynnol yng Nghymru wedi'i seilio ar asesiad cynhwysfawr o anghenion.
- Penodi/dynodi "hyrwyddwr" gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, sy'n atebol i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, gyda'r awdurdod i sicrhau dull cydlynol a chyd-drefnus o weithredu "Busnes Pawb" a safonau a chamau gweithredu yn y FfGC sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed yn yr holl bortffolios gweinidogol.
- Sicrhau na chanolbwyntir yn gyfan gwbl ar weithredu Haenau arbenigol 3 a 4, gan ofalu, yn hytrach, fod amrediad o ddarpariaethau cyffredinol ar gael sydd â'r amcan o hybu llythrennedd a lles emosiynol plant a phobl ifanc.
- Rhoi pen ar yr arfer o leoli plant a phobl ifanc mewn wardiau iechyd meddwl oedolion.

MANYLION CYSWLLT

BARNARDO'S CYMRU
ANDY JAMES, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, POLISI
Ffôn: 01792 463357
E-bost: andy.james@barnardos.org.uk

NCH CYMRU
JAYNE ISAAC, SWYDDOG POLISI CYHOEDDUS
Ffôn: 029 20 222127
E-bost: jayne.isaac@nch.org.uk

NSPCC
SIMON JONES, CYNGHORYDD POLISI CYMRU
Ffôn: 029 20 267000
E-bost: simonjones@nspcc.org.uk

ACHUB Y PLANT
ANNE CROWLEY, UWCH GYNGHORYDD POLISI
Ffôn: 029 20 396838
E-bost: a.crowley@savethechildren.org.uk

TROS GYNNAL
JACKIE MURPHY, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
Ffôn: 029 20 396974
E-bost: jackie.murphy@trosgynnal.org.uk

Cefnogwyd y papur briffio hwn gan Plant yng Nghymru